## ❖ Carol y Geni

Mae angylion yn y bryniau,
Peraidd gân ar awel nos,
Arswyd ddaeth i fron bugeiliaid, –
Dieithr heno erwau'r rhos.

Yn y preseb draw ym Methlem,
Baban bach, Gwaredwr byd;
Twrw stwrllyd yn y llety,
Gwartheg tawel wrth y crud.

Yn y dwyrain pell bu seren
Ddenodd fryd y doethion, dri:
Llachar lwybrau a'u tywysodd, –
Heno, safodd uwch y tŷ.

Carem ninnau gyrchu yno,
Wrth ei draed, ei foli Ef:
Uno gyda'r holl finteioedd,
Llwythau'r ddaear, engyl nef.

**Cyril Williams**